

# NEUADD DDINESIG CONWY

Castle Street, Conwy, Gogledd Cymru LL32 8AY

## RHESTR WIRIO AR GYFER CEISIADAU



Mae'r Cyngor yn ceisio cael gwared ar y safle drwy gytundeb prydles hir. Bydd y brydles yn para am gyfnod o 999 o flynyddoedd ar delerau FRI. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau i gaffael yr eiddo yw [hanner dydd, 30 Medi, 2019](#). Nid oes rhaid i'r Cyngor ystyried unrhyw gynnig ar ôl y dyddiad hwn. Nid oes rhaid i'r Cyngor dderbyn unrhyw gynnig. Bydd unrhyw gynnig a gaiff ei symud ymlaen yn cael ei gyflwyno ger bron Pwyllgorau Craffu a Chabinet y Cyngor i'w cymeradwyo.

Ychydig iawn o gyfleoedd am barcio sydd yna ar y safle. Mae'r Cyngor yn berchen ar dir gerllaw y gellid ei ddefnyddio ar gyfer parcio. Argymhellir y dylai'r ymgeisydd ymgynghori â'r Cyngor cyn cyflwyno unrhyw gais, er mwyn ystyried a ellid darparu unrhyw dir ychwanegol er mwyn sicrhau'r cynllun arfaethedig.

Wedi'i leoli o fewn Safle Treftadaeth y Byd pwysig, mae'r eiddo yn Adeilad Rhestredig Gradd II. Mae'r Cyngor wedi paratoi Nodyn Canllawiau Cynllunio manwl, dyddiedig Ebrill 2019. Mae'r Nodyn Canllawiau Cynllunio ar gael ar gais, neu drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

[www.conwy.gov.uk/cei](http://www.conwy.gov.uk/cei)

Nid yw'r rhestr wirio hon yn llunio rhan o'r cais; ei bwriad yw rhoi arweiniad i'r ymgeisydd ar y wybodaeth y mae'r Cyngor yn ei geisio, er mwyn iddo gael ei ystyried yn briodol.

[Cynllyn Corfforaethol](#) - Mae gan y Cyngor nifer o amcanion a dylai unrhyw gais gyfeirio at y manteision hynny y gall y cynllun eu darparu, lle bo hynny'n bosib: <https://bit.ly/2QMNaVO>

Mae'r Cyngor yn ceisio datblygwyr fydd yn gwerthfawrogi'r amgylchiadau a'r safle unigryw y mae'r eiddo yn ei ddarparu a'i gynnig yn nhref Conwy.

Dylai pob cais ddarparu/gadarnhau'r canlynol:

- Enw, cyfeiriad a manylion cyswllt
- Crynodeb o'r defnydd y bwriedir ei wneud o'r eiddo ynghyd ag unrhyw ddelweddau artistig o'r datblygiad terfynol
- Profiadau/Enghreifftiau o brosiectau tebyg ynghyd â'r tîm cyflawni arfaethedig
- Cadarnhad o'r cyllid/grantiau y mae eu hangen ar gyfer y datblygiad
- Bod yr ymgeisydd wedi cael cyfle i archwilio'r eiddo ac y bydd yn dibynnu ar ei archwiliadau ei hun er mwyn asesu addasrwydd yr eiddo a'i gyflwr
- Bod yr ymgeisydd wedi cynnal ei ymchwiliadau ei hun i'r holl ddynodiadau statudol sydd ar yr eiddo, a bod yr ymgeisydd yn ymwybodol o'r Nodyn Canllawiau Cynllunio yn benodol
- Manylion unrhyw fanteision i Gonwy, gan gyfeirio at Gynllun Corfforaethol y Cyngor Sir
- Y cynnig a wnaed a p'un ai yw'n amodol ai peidio (gydag amodau os yw'n gymwys)

**Dyddiad cau: 30 Medi 2019**

## Cysylltu

Am ragor o fanylion, i wneud cais am archwiliadau ac ar gyfer ceisiadau:

Gareth Wyn Peters

Prif Reolwr Eiddo

Rheoli Ystadau ac Asedau

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

01492 574218

[gareth.peters@conwy.gov.uk](mailto:gareth.peters@conwy.gov.uk)

